# Cynllunio gweithrediadau adeiladu rhwydweithiau cyfleustodau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynllunio gweithrediadau ar asedau rhwydwaith fel y bydd y gwaith a gwblhawyd yn bodloni manylebau sicrhau ansawdd a gweithredu'r sefydliad. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio cychwynnol neu i addasu cynlluniau presennol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gallai fod yn berthnasol i weithrediadau adeiladu rhwydwaith ar gyfer un cyfleustod neu mewn amgylchedd sydd â mwy nag un cyfleustod.

Mae hyn yn cynnwys nodi iechyd, diogelwch, yr amgylchedd, y trwyddedau angenrheidiol ac unrhyw ofynion penodol eraill, cynllunio amseriad a threfn y gweithgareddau a dogfennu a chyfleu cynlluniau.

Mae'r Safon hon ar gyfer rheolwyr adeiladu rhwydwaith neu oruchwylwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd unigol neu aml-gyfleustod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r holl ffactorau perthnasol i'w cynnwys mewn cynlluniau
2. cysylltu ag asiantaethau allanol yn ôl yr angen i gael gwybodaeth sy'n berthnasol i gyflawni cynlluniau
3. penderfynu ar yr holl drwyddedau a gweithdrefnau angenrheidiol y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol gweithrediadau
4. gwneud gwaith cynllunio yn unol â pholisi a gweithdrefnau gwaith y cwmni
5. sefydlu unrhyw ofynion penodol a allai effeithio ar gynllunio safleoedd neu weithrediadau
6. cadarnhau gydag asiantaethau allanol a oes unrhyw delerau ac amodau penodol yn berthnasol i'r safle, gweithrediadau neu amserlenni sy'n cael eu cynllunio
7. cysylltu ag eraill i bennu amserlenni realistig ar gyfer y gweithrediadau sydd eu hangen
8. cofnodi dilyniant gweithgareddau yn unol â gweithdrefnau rheoleiddiol a sefydliadol
9. sefydlu opsiynau wrth gefn i ddarparu ar gyfer newidiadau annisgwyl i amserlenni a gynlluniwyd
10. darparu ar gyfer arferion gweithio ac amgylcheddol diogel yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch a deddfwriaeth amgylcheddol drwy gydol y gwaith
11. llunio cynlluniau cynhwysfawr gan gynnwys gofynion o ran adnoddau, amserlenni a cherrig milltir yn ôl yr angen
12. rhoi gwybod i'r bobl briodol am unrhyw amrywiadau i'r cynlluniau gwreiddiol
13. dosbarthu cynlluniau yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r cyflogwr
14. esbonio cynlluniau wedi'u dogfennu i'r holl bobl ofynnol
15. sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu diweddaru yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr
16. nodi ac ymateb i broblemau sydd o fewn terfynau cyfrifoldeb eich swydd eich hun
17. rhoi gwybod i'r bobl briodol am broblemau sydd y tu allan i gyfrifoldebau rôl y swydd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. prif gyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a sut i gydymffurfio â nhw, gan gynnwys pryd i gynnal asesiadau risg, a sut
2. prif gyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol
3. llinellau adrodd, rolau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdod y cwmni
4. nodi a defnyddio gweithdrefnau diogel ar gyfer trin deunyddiau peryglus a deunyddiau nad ydynt yn beryglus
5. ystod a defnydd cyfarpar diogelu personol ar gyfer y gweithgaredd gwaith a gweithdrefnau ar gyfer gwirio bod cyfarpar diogelu personol yn addas i'r diben
6. gweithdrefnau adrodd statudol, sefydliadol ac mewn argyfwng
7. gweithdrefnau a phrosesau'r cwmni ar gyfer rhoi gwybod am broblemau
8. sut i ddehongli a chymhwyso polisïau, gweithdrefnau a ffynonellau gwybodaeth perthnasol
9. y prosesau a'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn a chydymffurfio â nhw, a'r gymeradwyaeth y mae angen ei chael wrth gynllunio gweithrediadau
10. effaith bosibl cynllunio gweithrediadau lluosog ar y safle
11. sut i gynnal arferion gweithio ac amgylcheddol diogel drwy gydol y gwaith
12. sut i leihau risgiau i'r hunan ac eraill wrth ymgymryd â gweithgareddau gwaith
13. cyfarwyddiadau gwaith, systemau a dogfennau gwybodaeth ac adrodd y cwmni
14. Gweithdrefnau Rheoli Gweithrediadau'n Ddiogel (Systemau Gweithio Diogel)
15. sut i ymateb i'r gwahanol fathau a chategorïau o sefyllfaoedd brys a allai godi
16. gofynion a gweithdrefnau ar gyfer gwaredu gwastraff a deunyddiau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddiogel
17. y dilyniant o brosesau a thechnegau y mae angen eu dilyn a'u defnyddio wrth symud deunyddiau ac adnoddau i'r safle ac oddi yno

# Cynllunio gweithrediadau adeiladu rhwydweithiau cyfleustodau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | MUNC29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau |
| **Geiriau Allweddol** | cyfleustodau, cyfleustod, rhwydwaith, adeiladu, dŵr, nwy gweithrediadau, nwy, LPG, hydrogen, dŵr, aml-ddefnydd |